

Jonathan Griffiths
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlfordd
Sir Benfro
SA61 1TP

Date: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

Arolygiad Gwerthuso Perfformiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) 2020-2021: Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Penfro

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein harolygiad gwerthuso perfformiad diweddar rhwng 28 Medi a 2 Hydref 2020.

Trosolwg

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd AGC ei raglen arolygu mewn ymateb i bandemig COVID-19 a'r gofyniad i ddarparwyr ac awdurdodau lleol ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig ym mis Medi i roi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae eu lles yn cael ei hyrwyddo yn ystod y pandemig.

Ddiben yr arolygiad hwn oedd adolygu pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant. Gwnaethom ystyried diogelwch gwasanaethau, diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau a diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio. Gwnaethom hefyd gwblhau ein hadolygiad thematig cenedlaethol o wasanaethau i blant anabl a'u teuluoedd.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Cyffordd Llandudno
Swyddfeydd y Llywodraeth
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
✉ ciw@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Llandudno Junction Office
Government Offices
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac rydym wedi cofnodi ein barnau a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Llesiant, Partneriaethau ac Integreiddio.

Roedd yr arolygiad yn ystyried y ffordd y caiff yr egwyddorion hyn eu defnyddio ar dair lefel:

- unigol
- gweithredol
- strategol

Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella:

Pobl – Llais a Rheolaeth: Gwnaethom ofyn: Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau, gan gydbwysu'r argymhellion a'r gofynion a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru ar yr un pryd er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19?

Roedd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y gefnogaeth y maent yn ei chael gan y tîm rheoli. Dangosodd yr awdurdod lleol ymrwymiad i ddysgu a datblygu a chefnogi cymwysterau ffurfiol. Mae hyn yn arwyddocaol, yn arbennig o ran cefnogi nifer o staff newydd gymhwyso yn yr awdurdod lleol a hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth ar draws timau ac asiantaethau eraill.

Roedd barn y bobl sydd angen gofal a chymorth yn ganolog yn y mwyafrif o'r ffeiliau a adolygwyd gennym. Roedd asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth yn bennaf yn cynnwys yr hyn sy'n bwysig i bobl a'r canlyniadau yr oedd pobl am eu cyflawni.

Mewn gwasanaethau i oedolion, gwelsom amrywiad o ran ansawdd a phrydlondeb adolygiadau ar gyfer rhai pobl ac mewn asesiadau gofalwyr. Roedd y gorau yn rhoi darlun clir o amgylchiadau unigol pobl a'u gallu i ddeall, cadw a defnyddio gwybodaeth allweddol i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Roedd gan eraill ddiffyg eglurder pwrpas a manylion, roeddent yn canolbwyntio ar dasgau ac yn aml yn digwydd mewn ymateb i argyfwng neu angen cynyddol. Gan nad oedd llawer o bobl yn cael adolygiad wedi'i drefnu, collwyd y cyfle i fynd i'r afael ag anghenion newidiol pobl ac atal amgylchiadau rhag dirywio. Roedd uwch-reolwyr yn ymwybodol o'r materion hyn, gan gydnabod yr angen i wella ac maent yn adolygu arfer proffesiynol i godi safonau a chynnal adnoddau staffio addas i sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed bob amser.

Mae cynlluniau ar gyfer gwella gwasanaethau plant yn cynnwys datblygu rhaglen ymgynghori reolaidd a strwythuredig gyda phlant a'r angen i ymgynghori â gwasanaethau a phartneriaid wrth ddarparu strategaeth ar gyfer lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Gwnaeth yr awdurdod lleol ystyried hawliau plant Sir Benfro i gael y cyfle i ymgymryd ag eiriolaeth. Roedd ein hadolygiad o ffeiliau yn dangos y cynnig o eiriolaeth i blant sydd â phrofiad o ofal. Cawsom wybodaeth trwy'r darparwr eiriolaeth, TGP Cymru, yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19, y derbyniwyd dros 200 o atgyfeiriadau gan 100 o bobl ifanc,

yn bennaf mewn perthynas â phlant â phrofiad o ofal. Mae TGP Cymru wedi bod yn rhagweithiol yn ystod y cyfnod hwn wrth gysylltu â phobl ac wedi defnyddio Facetime i gyfathrebu'n ddiogel.

Mynegwyd barn gadarnhaol gan y rhai sy'n gadael gofal mewn perthynas â'u cynorthwyr personol. Gwelsom enghreifftiau o gydraddoldeb o ran gweithio mewn partneriaeth; dywedodd rhiant person ifanc anabl wrthym fod y gweithiwr cymdeithasol wedi canolbwyntio ar y plentyn yn fawr wrth drafod cefnogaeth – arweiniodd asesiad at ddod â chyfeillachwr i weithio gyda'r person ifanc.

Mae'r tîm plant anabl bellach wedi'i integreiddio o fewn y gyfarwyddiaeth dai a gwasanaethau cymdeithasol. Roedd aelodau'r tîm yn gadarnhaol ynglŷn â'r newid hwn a gwnaethant sôn am fuddion sylweddol gweithio gyda thimau eraill yn y gyfarwyddiaeth i ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig, gan wella canlyniadau diogelwch a llesiant y bobl.

Ar hyn o bryd mae'r tîm hwn yn gweithio gyda mwy na 100 o blant ac mae bron i 40 yn derbyn taliadau uniongyrchol. Mae gan yr awdurdod lleol ymrwymiad clir i hwyluso dewis i deuluoedd ac roedd y cyfleoedd personol yn rhai cyfoethog. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol ynglŷn â'r ffordd roedd taliadau uniongyrchol wedi rhoi cyfle iddynt ddatblygu gofal a chefnogaeth bwrsasol, ond dywedwyd wrthym am heriau mewn perthynas ag argaeledd cynorthwyr personol.

Mae gan yr awdurdod lleol ddull cynhwysol o gynnwys pobl wrth gynllunio, yn enwedig ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Er enghraifft, datblygwyd y Strategaeth Anabledd Dysgu a'r Siarter Anabledd Dysgu mewn partneriaeth â phobl ag anableddau dysgu. Mae'r awdurdod lleol wedi cyflogi pobl ag anableddau dysgu fel hyrwyddwyr anableddau dysgu. Mae Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) yn cefnogi un o'r hyrwyddwyr i ganolbwyntio ar weithgareddau a gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn y trydydd sector.

Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig ac yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaeth yn newis iaith yr unigolyn. Cynhaliwyd rhai asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg, ond ceir rhai anghysondebau o hyd.

Atal: Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hybu prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am ddull yr awdurdod lleol o atal. Mae ei seilwaith a'i gydberthnasau gwaith sydd eisoes yn bodoli wedi helpu i ddatblygu'r ymateb i ddiwallu anghenion pobl o ran llesiant yn ystod pandemig COVID-19. Mae'r Hwb Cymunedol yn gydweithrediad rhwng yr awdurdod lleol, PAVS a sefydliadau'r trydydd sector mewn ymateb i bandemig COVID-19. Sefydlodd hyn un pwynt mynediad i ymateb i ymholiadau am lesiant pobl. Datblygodd dros 90 o grwpiau cymunedol newydd yn gyflym mewn ymateb uniongyrchol i'r pandemig, gyda PAVS yn chwarae rôl gydlynu allweddol. Mae enghreifftiau cadarnhaol eraill yn cynnwys rôl weithredol ac integredig Cysylltwyr Cymunedol, gan gysylltu pobl ag adnoddau cymunedol. Mae gweithgareddau diweddar wedi cynnwys cefnogi pobl hŷn i ddatblygu eu sgiliau mewn technoleg ddigidol.

Mae gan y tîm Cyswllt Cyntaf rôl ataliol bwysig trwy ei ymatebion prydlon i bryderon ynghylch newidiadau yn llesiant pobl; gan gyfeirio i sefydliadau cymorth a gweithio'n agos gyda sefydliadau'r trydydd sector fel Croesffyrdd Hafal a'r Groes Goch. Yn ddiweddar, mae'r awdurdod lleol wedi sefydlu dull gofal canolraddol newydd. Dangosodd dangosyddion cynnar fod y staff yn gadarnhaol iawn ynghylch ei ymatebolrwydd ac ynghylch effeithiolrwydd gwahanol wasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd. Fodd bynnag, gwelsom arfer amrywiol o ryddhau o'r ysbyty. Roedd yr enghraifft orau yn dangos cynllunio aml-asiantaeth amserol i ryddhau o'r ysbyty. Fodd bynnag, gwelsom hefyd gynllunio gwael mewn perthynas ag ailalluogi yr aethpwyd i'r afael ag ef yn ddiweddarach trwy waith dilynol pellach gartref.

Mewn gwasanaethau plant, gwnaethom ddarllen am enghraifft o ymateb cyflym i ymweld â rhiant plentyn sy'n byw gydag awtistiaeth – roedd hyn yn galluogi asesiad amserol o'r amgylchiadau a'r gofal a'r gefnogaeth a drefnwyd. Mae ymatebion prydlon fel hyn yn sicrhau bod pobl yn ddiogel ac yn galluogi cyfleoedd i fodloni canlyniadau personol ac atal anghenion rhag gwaethygu.

Gwnaethom nodi seibiant a seibiannau byr ar gyfer plant anabl fel maes ar gyfer datblygu – mae angen i'r awdurdod lleol wella'r ddarpariaeth hon.

Gwnaethom nodi enghreifftiau lle roedd cynnydd mewn angen yn cael ei atal ar gyfer plant â phrofiad o ofal, gan sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl yn cael eu cyflawni. Dangoswyd hyn mewn adolygiad ffeil a nododd gyfranogiad aml-asiantaeth da, eglurder wrth asesu risg a chynllunio diogelwch ac anghenion yr aethpwyd i'r afael â hwy trwy gefnogaeth Action for Children a'r tîm Ymylon Gofal.

Gwelsom gryfder mewn trefniadau partneriaeth rhwng gwasanaethau statudol ac ataliol. Roedd eglurder yn y trefniadau camu i fyny a chamu i lawr ac enghreifftiau da o ddefnyddio'r Tîm o amgylch y Teulu a gwaith allgymorth ieuencid i gefnogi pobl ifanc. Dywedodd yr awdurdod lleol a'i bartneriaid wrthym y bu ffocws sylweddol ar drefnu gweithgareddau haf, gan ymgorffori camau i fynd i'r afael â newyn gwyliau a chefnogi plant a all fod yn agored i niwed, yn ogystal â sicrhau bod plant yn aros yn ddiogel yn ystod y pandemig hwn.

Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn ffordd ddiogel yn flaenoriaeth. Roedd yr awdurdod lleol wrthi'n gweithio ar gynllun lleihau sy'n cynnwys; mynd i'r afael â defnyddio Gorchmynion Gwarchodaeth Arbennig, dirymu Gorchmynion Gofal a gweithio gyda'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Lllys i Blant a Theuluoedd.

Partneriaethau ac Integreiddio: Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn gallu sicrhau ei hun ei fod yn achub ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn gwneud y gorau o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig a'u bod yn gynaliadwy?

Gwelwyd bod y graddau y mae pobl yn bartneriaid cyfartal wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cefnogaeth yn amrywio. Roedd enghraifft dda a adolygwyd gennym yn darparu tystiolaeth o ryngweithio o ansawdd da mewn perthynas â rhyddhau o'r ysbyty, gyda chyfathrebu defnyddiol a thryloyw a oedd yn galluogi'r teulu i ddeall prosesau a gwneud penderfyniadau. Roedd gan eraill ddiffyg manylion a thystiolaeth gyfyngedig o gyfranogiad yr unigolyn neu'r gofalwr a dim ffocws ar y canlyniadau a ddymunir.

Roedd llawer o'r ymarferwyr yn Sir Benfro yn ymgysylltu â phlant, oedolion a theuluoedd yn gadarnhaol ac yn annog gweithio mewn partneriaeth o ran galluogi pobl i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt. Roedd y rheolwyr, gweithwyr cymdeithasol a phartneriaid yn cynnal ffocws cadarn ar sicrhau y caiff plant ac oedolion eu cefnogi i aros gyda'u teulu a/neu brofi sefydlogrwydd ar y cyfle cyntaf posibl. Tynnodd rhai staff gwaith cymdeithasol sylw at heriau sy'n mynd i'r afael ag anghenion iechyd emosiynol a meddyliol plant; gwnaethant ddisgrifio bylchau o ran argaeledd gwasanaethau a'r ffaith bod seicolegydd plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod lleol yn cael ei ddefnyddio i lenwi'r bwch.

Mae gan yr awdurdod lleol ystod eang o fentrau partneriaeth strategol a oedd yn nodi bod partneriaeth amlasiantaethol effeithiol ar waith yn Sir Benfro. Cadarnhaodd ymatebion cynrychiolwyr o sefydliadau partner fod y dull amlasiantaethol yn gryf, gydag uwch-reolwyr yn weladwy ac yn cyfrannu at drefniadau partneriaeth fel y Bwrdd Gofalwyr a'r byrddau Anabledd Dysgu a Phobl Hŷn. Gwnaethom nodi bod gweithwyr cymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol wrth gyrchu a chyfeirio at wasanaethau a grwpiau proffesiynol eraill. Dywedodd pobl wrthym fod yr awdurdod lleol yn barod i dderbyn newidiadau ac yn hapus i ystyried arfer arloesol.

Gwelsom fod tîm y Swyddog Adolygu Annibynnol yn gweithio'n effeithiol gyda thimau gwaith cymdeithasol; nododd ein canfyddiadau fod y tîm hwn yn darparu cydbwysedd priodol rhwng her a chefnogaeth. Roedd ansawdd cofnodion adolygiadau plant sy'n derbyn gofal o safon dda, yn darparu eglurder o ran gwybodaeth ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau i blant a phobl ifanc.

Roedd partneriaid ledled Sir Benfro yn gweithio i agenda a rennir ar draws iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft wrth ddatblygu proses panel anghenion cymhleth ranbarthol a chysylltiad agos ag ysgolion a'r cydlynnydd addysg plant sy'n derbyn gofal.

Llesiant: Gwnaethom ofyn: I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn cynnal eu diogelwch ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Gall pobl Sir Benfro fod yn sicr bod eu diogelwch a'u llesiant yn cael eu hyrwyddo. Roedd atgyfeiriadau ac arferion diogelu yn cael eu rheoli yn unol â gofynion statudol ac mewn modd priodol ac amserol. Fodd bynnag, nid oedd dadansoddi a meddwl yn feirniadol am gyd-destun y teulu, er enghraifft, deall effaith ehangach am benderfyniadau, bob amser yn amlwg ynghyd â diffyg goruchwyliaeth gan reolwyr. Mewn gwasanaethau plant, nodwyd bylchau mewn rhai ymweliadau statudol a gynhaliwyd gan weithwyr cymdeithasol. Rhaid i'r

awdurdod lleol adolygu sut mae'n monitro ac yn mynd i'r afael â'r maes ymarfer penodol hwn.

Roedd cofnodion diogelu a adolygwyd yn dangos tystiolaeth o gynlluniau amddiffyn cymorth a gofal cydgyssylltiedig trwy grwpiau craidd a gynhaliwyd yn rhithwir ac ymweliadau amddiffyn plant wyneb yn wyneb a gynhelir gan weithwyr cymdeithasol. Dywedodd rhai partneriaid y gallai cyfathrebu â gwasanaeth diogelu'r awdurdod lleol fod yn well.

Yn ystod y pandemig, mae'r awdurdod lleol wedi ceisio hybu llesiant pobl sy'n agored i niwed drwy greu cyfleoedd i bobl gyflawni canlyniadau cadarnhaol a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Gwnaethom nodi enghreifftiau o'r awdurdod lleol, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, yn cefnogi llesiant oedolion ifanc yn ystod amgylchiadau newidiol y pandemig. Un enghraifft oedd mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc sy'n trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion. Rhannodd cynrychiolydd partner sut y cafodd nifer o unigolion eu cefnogi i fyw'n annibynnol gan ganolbwyntio ar eu cynlluniau personol unigol, er enghraifft, i gael mynd i'r coleg a chael cyfleoedd gwaith.

Amlygodd cyfweiliadau â theuluoedd gydberthnasau gwaith cadarnhaol â gweithwyr cymdeithasol ar y cyfan. Disgrifiodd teulu y gwnaethom gyfweled ag ef sut roedd y gweithiwr cymdeithasol yn gweithio i ffurfio cydberthynas adeiladol i ddarparu cynllun diogelwch i blentyn mewn perthynas ag ymddygiad bregus y person ifanc. Roedd cyfarfod a chynllunio strategaeth ymddygiad peryglus yn cynnwys gweithwyr proffesiynol perthnasol, datblygu'r cynllun yn amserol gydag eglurder o fewn amserlenni a chyfrifoldebau. Roedd gweithwyr proffesiynol y gwasanaeth ieuencid ac addysg yn ymwneud yn benodol â chefnogaeth i'r teulu.

Aed i'r afael â diogelwch a llesiant plant anabl mewn modd amserol; er enghraifft, gwelsom fod adolygiadau amddiffyn plant a gofalu am blant yn cael eu cynnal yn unol ag amserlenni. Mae hyn yn arwyddocaol o ran addasu gofal a chefnogaeth i angen a risg sy'n newid. Roedd gan y trefniadau diogelu a adolygwyd gennym dystiolaeth o awdurdodiad a goruchwyliaeth rheolwyr. Gwelsom risg yn cael ei disgrifio mewn datganiadau niwed a chryfderau plant a theuluoedd yn cael eu hystyried. Roedd gan weithwyr cymdeithasol ddealltwriaeth dda o'r bobl yr oeddent yn gweithio gyda nhw; gwelsom dystiolaeth o weithwyr yn ceisio barn ac yn gwneud gwaith unigol megis y Tri Thŷ.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau'n ddigonol i blant ag anghenion cyfathrebu gan ddefnyddio ystod o ddulliau cyfathrebu er mwyn rhannu a chasglu gwybodaeth gyda a chan bobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys Iaith Arwyddion Prydain (BSL), Makaton a'r System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau (PECS).

Gwelsom fod sesiynau goruchwylio yn cael eu cofnodi yn rheolaidd a thystiolaeth bod rheolwyr yn goruchwylio ar y mwyafriaf o ffeiliau a adolygwyd. Mae gan yr awdurdod lleol systemau sicrhau ansawdd ar waith, mae hyn yn cynnwys system o archwilio cymheiriad. Mae hyn yn arwyddocaol i bobl gan ei fod yn golygu bod gan yr awdurdod lleol strwythur ar waith i fonitro diogelwch a llesiant. Dywedodd staff a rheolwyr fod eu llwythi achosion ar y

cyfan yn brysur ond eu bod yn gallu ymdopi â hwy ar y cyfan, er eu bod yn cydnabod bod cymhlethdod cynyddol a chynnydd yn nifer y plant â phrofiad o ofal.

Roedd yr awdurdod lleol yn cydnabod bod cefnogi llesiant ei weithlu yn hanfodol i fusnes ac mae ganddo ffocws clir ar recriwtio, cadw a datblygu'r gweithlu. Mae'r holl staff yn cael budd o'r cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u gyrfaoedd. Mae'r awdurdod lleol yn anelu'n uchel o ran sicrhau bod y bobl sy'n byw yn Sir Benfro yn cael budd o gydbertnasau tymor hwy a llawn ymddiriedaeth â gweithwyr cymdeithasol medrus a chefnogol sy'n deall eu hanghenion a'r ffordd orau o weithio gyda nhw i leihau risg a gwella eu canlyniadau personol.

Dull:

- gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd cyn ein hymweliad
- gwnaethom siarad â 14 o ofalwyr a 6 o bobl sy'n derbyn gofal a chefnogaeth
- gwnaethom adolygu 30 o ffeiliau
- cynhaliom 28 o gyfweiliadau olrhain achos gyda staff
- gwnaethom gyfweled â 9 gweithiwr proffesiynol arall
- gwnaethom gynnal 10 grŵp ffocws
- gwnaethom gynnal arolwg i weithwyr gwasanaethau cymdeithasol
- gwnaethom gynnal arolwg i rieni a gofalwyr plant anabl
- gwnaethom gynnal arolwg i bobl a oedd â phrofiad o ofal a chymorth

Y Camau Nesaf:

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd ar gyfer eu gwella fel blaenoriaeth a byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn trwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad gyda'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr.

Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol.

Hoffwn ddiolch i bawb a wnaeth helpu gyda'r trefniadau ar gyfer yr arolygiad hwn ac i'r bobl a'r staff a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Arolygiaeth Gofal Cymru